

Eiriolaeth dros Anableddau Dysgu ac Awtistiaeth

Beth Rydym yn ei Wneud

- Gallwn ni gefnogi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau sylfaenol ond rhaid iddyn nhw gael diagnosis o Anabledd Dysgu neu Awtistiaeth.
- Rydym yn darparu cefnogaeth mewn cyfarfodydd ynghylch Meddyginiaeth, Triniaeth a Gofal.
- Rydym yn cysylltu â gweithwyr proffesiynol allanol fel Gweithwyr Tai, Sefydliadau Tai â Chymorth, Gweithwyr Cymdeithasol ac ati.
- Rydym yn cefnogi cleientiaid i godi pryderon ynghylch problemau y gallent fod yn eu cael gyda mudiadau elusennol neu awdurdodau lleol sy'n rheoli eu harian.
- Rydym yn gallu cyfeirio cleientiaid at asiantaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol, gwneud atgyfeiriadau ac rydym hefyd yn gallu mynychu gyda'r cleient.
- Rydym yn cefnogi cleientiaid i godi pryderon a chwynion.
- Rydym yn sicrhau bod cleientiaid yn ymwybodol o'u hawliau cyfreithiol.
- Rydym yn cynnig opsiynau i'r cleient ac yn cael ein harwain gan y cleient.
- Rhaid i gleientiaid fod o leiaf 18 mlwydd oed.

Yr Hyn Nad Ydym yn Ei Wneud

- Nid ydym yn llenwi ffurflenni budd-daliadau nac unrhyw fath o ffurflenni y gallem fod yn atebol amdanynt.
- Nid ydym yn gweithredu fel cyfryngwyr.
- Nid ydym yn cymryd cofnodion mewn cyfarfodydd proffesiynol.
- Dydyn ni ddim yn mynychu'r llys.
- Nid ydym yn rhoi cyngor.
- Nid ydym yn gweithio fel gweithwyr cymorth, cynorthwywyr personol na chyfeillion.
- Nid ydym yn hwyluso teithio i apwyntiadau.
- Nid ydym yn ymyrryd yng nghyllid personol cleientiaid.



Cefnogaeth Eiriolaeth Cymru, Charterhouse 1, Links Business Park, Ffordd Fortran, Llaneirwg, Caerdydd, CF3

OLT

Ffôn 029 2054 0444 **Ffacs** 029 2073 5620

E-bost info@ascymru.org

www.ascymru.org